SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

# Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru Digwyddiad Ymgysylltu â'r Trydydd Sector 1 Tachwedd 2016

## Adroddiad ar y Digwyddiad






www.northwales-pcc.gov.uk

# Adroddiad ar y Digwyddiad

## Y digwyddiad

Ar 1af Tachwedd 2016, yn fy rôl fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, cynhaliais ddigwyddiad, a gynhelir yn flynyddol erbyn hyn, i ymgysylltu â sefydliadau'r sector gwasanaethau gwirfoddol a chymunedol (a elwir hefyd yn drydydd sector) ynghylch blaenoriaethau plismona ar gyfer Cynllun Heddlu a Throsedd 2017/18.

Cynhaliwyd y digwyddiad yng Nghanolfan OpTIC, Prifysgol Glyndŵr, Llanelwy. Roedd 56 yn bresennol, yn cynrychioli 40 o sefydliadau lleol a rhanbarthol gwahanol. Ceir rhestr o'r sefydliadau a fynychodd ac a gyfrannodd at yr ymgynghoriad yn Atodiad A.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu adborth i'r rhai a gyfrannodd i'r digwyddiad ar y prif negeseuon a godwyd, a sut y byddaf i a'm Swyddfa'n symud ymlaen gyda'r cyfraniadau hyn.

Yn gyntaf, fodd bynnag, hoffwn ail-edrych ar y digwyddiad blaenorol a gynhaliwyd ar 17eg Rhagfyr 2015.

## Y diweddaraf am faterion sydd dal ar y gweill ers yr ymgysylltiad blaenorol â'r trydydd sector

Y llynedd (ac yn y blynyddoedd cynt) yn ein hymgynghoriad â'r trydydd sector, cawsom lawer iawn o adborth am y problemau a achosir yn sgil ariannu'n darparwyr trydydd sector fesul blwyddyn. Mae ariannu blynyddol yn creu ansicrwydd ac yn atal sefydliadau arbenigol rhag cyflenwi'u gwasanaethau'n effeithiol. Cydnabu fy swyddfa i'r broblem hon a thynnu sylw ati'n genedlaethol. Y llynedd cafodd y comisiynwyr sicrwydd oddi wrth y Llywodraeth y byddai'r drefn ariannu'n un fwy hirdymor o 2017/18 ymlaen, gan ganiatáu i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd gomisiynu gwasanaethau bob pedair blynedd. Yn anffodus, nid yw'r gwaith angenrheidiol i gefnogi'r penderfyniad hwn wedi'i gwblhau ar lefel genedlaethol, ac felly am y flwyddyn sydd i ddod (2017/18) ariannu blynyddol fydd y drefn unwaith eto, heb unrhyw ariannu dangosol am y tair blynedd ganlynol. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrthi'n gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod yr addewid am benderfyniadau ariannu mwy hirdymor yn dod yn realiti gweithredol. Mae ein gwaith yn parhau yn hyn o beth.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi ymrwymo i drosi mwy o ddeunydd cyhoeddedig i Iaith Arwyddion Prydain. Hefyd, rydym yn gweithio gyda'r Heddlu i sicrhau eu bod yn gwneud yr un peth. Eleni, derbyniodd Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru arian Cyllidebu Cyfranogol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i gynnal gweithdai atal troseddau ar gyfer pobl fyddar yng Ngogledd Cymru.

O ran ymgysylltu â phobl hŷn mewn lleoliadau gofal preswyl, mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi sefydlu trefn ar gyfer archwilio dulliau'r heddlu lleol o ymgysylltu â chymunedau. Fel rhan o'r archwilio hwn, byddaf innau'n monitro i ba raddau y mae'r heddlu'n ymgysylltu'n uniongyrchol o fewn lleoliadau gofal preswyl.

## Cynllun Heddlu a Throsedd 2016/17


Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am yr amcanion heddlu a throsedd presennol a osodwyd ar gyfer 2016/17 a beth ddylai'r prif flaenoriaethau fod ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod (2017/18).

### Amcanion 2016/17

- Gweithio mewn partneriaethau effeithiol
- Atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Darparu ymateb effeithiol
- Llai newid a'r perygl o niwed

Eleni, trwy gydol ein prosesau ymgynghori, cafwyd amrywiaeth barn ynghylch beth ddylai gael blaenoriaeth o ran y prif faterion troseddol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd un ffactor dro ar ôl tro, sef pwysigrwydd canolbwyntio adnoddau plismona ar amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed. Rhaid gwarchod y rhai sy'n wynebu'r risg uchaf o ddioddef troseddau a chanolbwyntio ar atal troseddau, yn enwedig yn erbyn y rhai mwyaf agored i niwed.

Cafodd y rhai a gymerodd ran yn y digwyddiad drafodaeth hir am y materion troseddu allweddol a ddylai gael blaenoriaeth ac adnoddau yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd yn eu barn nhw. Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o'r materion hynny, ynghyd â'm hymateb i iddyn nhw.



Arfon Jones
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

# Pobl Agored i Niwed

## a. Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

### Y Materion a Godwyd:

- Mae mwyafrif y sylwadau ar y pwnc hwn yn nodi bod yn rhaid i'r heddlu roi blaenoriaeth i bob math o gam-drin domestig ac yn enwedig ymhlith grwpiau agored i niwed.
- Roedd rhai'n teimlo bod angen mabwysiadu dull gwahanol o ddelio â cham-drin domestig a thrais domestig, gan ddechrau trwy roi mwy o adnoddau i feysydd ataliol megis addysg a chodi ymwybyddiaeth.
- Tynnwyd sylw at hyfforddiant yr heddlu. A ydyn ni'n fodlon bod hyfforddiant a dealltwriaeth yr heddlu o gam-drin domestig cystal ag y dylai fod? Mynegwyd pryder ynghylch trosiant staff / colli swyddogion profiadol yn y maes hwn.

### Yr hyn ddywedodd pobl:

- "Mae angen inni ddatblygu plant gwydn ac addysgu mwy o bobl i ddeall sut mae cam-drin yn dechrau a sut i adael y berthynas yn gyflym ac yn ddiogel."
- "Byddwch yn ddewr, dechreuwch sgwrs efo'r gymuned am droseddu rhywiol."
- "Gweithio gydag asiantaethau sy'n arbenigo mewn cam-drin domestig, ac ysgolion i addysgu am berthynas iach (ataliol)."
- "Chwalu'r rhwystrau ffurfiol fel bod dioddefwyr cam-drin domestig yn gallu ymddiried/troi atoch chi'"
- "Trosiant staff o fewn yr heddlu'n golygu pob pawb yn symud ymlaen … dim arbenigedd di-dor."
- "Cam-drin Domestig – mwy o sicrwydd ariannol hirdymor ar gyfer asiantaethau arbenigol."

### Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Mae cam-drin domestig yn faes troseddu sy'n gofyn am waith partneriaeth effeithiol rhwng pob asiantaeth, p'un ai'n gyrff statudol neu'n gyrff trydydd sector. Byddwn yn parhau gyda'n hymdrechion i wella effeithlonrwydd ein gwaith partneriaeth er budd y rhai sy'n dioddef cam-drin domestig.

Does dim amheuaeth, o'r adborth a dderbyniais yn fy holl ymgynghoriadau ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throsedd eleni, bod pobl Gogledd Cymru'n ystyried trais domestig fel blaenoriaeth plismona allweddol. Felly i'r perwyl hwnnw, dwi'n bwriad cymryd y camau canlynol:

- Rwyf eisoes wedi prynu 301 o ddyfeisiau fideo ychwanegol a wisgir ar y corff ar gyfer heddweision. Y prif reswm dros wneud hynny oedd sicrhau eu bod ar gael pan fydd heddweision yn cael eu galw i ddelio ag achosion o gam-drin domestig, er mwyn darparu tystiolaeth a chynyddu nifer yr erlyniadau Trais Domestig.
- Byddaf yn monitro effaith y ddyfais fideo a wisgir ar y corff ar erlyniadau trais domestig trwy'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

# Adroddiad ar y Digwyddiad

## a. Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

- Byddaf yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu nifer y rhaglenni sydd ar gael i droseddwyr, i ostwng lefelau aildroseddu a'r nifer sy'n ail-ddioddef trais domestig.
- Gwneir y dull o roi gwybod am gam-drin domestig mor syml â phosib. Bydd staff arbenigol rheng flaen yn cael hyfforddiant fel bo angen.
- Byddaf yn sicrhau bod hyfforddiant yr heddlu'n seiliedig ar arolygon cenedlaethol a phrosiectau fel Femicide Census (gweler fy ngwefan am fanylion pellach)
- Mae'r rhaglen genedlaethol Schoolbeat yn darparu gwersi am bwysigrwydd perthnasoedd iach o'r cyfnod sylfaen hyd at ddiwedd cyfnod allweddol pedwar, ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. Mae gwersi penodol ar Drais Domestig a Cham-drin Domestig yn addysgu trwy chwarae rôl, amser stori a gweithgareddau rhyngweithiol eraill, ac yn helpu plant i archwilio a deall emosiynau anodd. Mae'r mewnbwn hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd siarad ag oedolyn y gellir ymddiried ynddo/ynddi os ydy'r plentyn yn teimlo'n anniogel neu'n anghyfforddus. Mae'r gwersi ar gyfer disgyblion hŷn yn helpu pobl ifanc i ddeall y gwahanol fathau o gam-drin domestig, er mwyn iddyn nhw all adnabod arwyddion perthynas dreisgar ymlaen llaw. Defnyddir senarios i helpu'r disgyblion i ganfod sut i gael cymorth a chefnogaeth.
- Mae Spectrum yn rhaglen addysgol a ddatblygwyd gan Hafan Cymru, ac fe'i cyflenwir mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Cymru, ar y cyd â mewnbwn gan Swyddogion Cyswllt Ysgolion fel rhan o'r rhaglen Schoolbeat. Mae'n rhaglen addysgol arbenigol ataliol sy'n delio â materion sy'n ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r rhaglen yn dechrau yn y Cyfnod Sylfaen ym Mlwyddyn 1 ac yn parhau hyd at Gyfnod Allweddol 4 ym Mlwyddyn 11. Mae'n ymgorffori nifer o bynciau megis adnabod emosiynau, perthyn, secstio, perthnasoedd iach, cydsyniad rhywiol, camau cam-drin a nifer o bethau eraill. Mae'r rhaglen ar waith yng Ngogledd Cymru ers 2007.

Mae'r uchod yn ddetholiad o fentrau a gyflenwir gan fy swyddfa i neu'r Heddlu trwy gydol 2017/18 i helpu i leihau neu atal cam-drin domestig a'i daclo'n gyflym ac yn effeithiol pan fydd yn digwydd.

Weithiau gall fod yn rhwystredig pan fydd heddwas sy'n gweithio'n arbennig o effeithiol mewn maes penodol yn symud ymlaen i faes plismona arall. Fodd bynnag, mae cynnydd a datblygiad staff yn bwysig iawn i blismona'n gyffredinol, ac mae'n dda o beth nad fy lle i yw rheoli, newid neu gyfyngu ar hynny. Fodd bynnag, dwi'n gwerthfawrogi pwysigrwydd cael y bobl iawn yn y swyddi iawn, sydd â'r sgiliau iawn i allu delio â'r materion plismona pwysig a sensitif hyn. Trwy fy nhrefniadau archwilio, dwi'n monitro perfformiad Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau bod adnoddau dynol yn cael eu rheoli yn y ffordd fwyaf addas ac effeithiol.

## Comisiynu

Dwi'n cydnabod pwysigrwydd proses gomisiynu ar y cyd lle mae'r holl bartneriaid perthnasol yn rhannu blaenoriaethau, yn enwedig mewn perthynas â cham-drin domestig, camfanteisio'n rhywiol ar blant, a materion caethwasiaeth fodern. Trwy weithio ochr yn ochr ar ein blaenoriaethau, gallwn ddarparu'r gwasanaethau iawn ar gyfer y bobl iawn yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon. Mae cyllidebau'n crebachu a'r adnoddau'n gyfyngedig, a dwi felly'n benderfynol o symud ymlaen gyda chomisiynu ar y cyd, yn enwedig ym maes gwasanaethau cam-drin domestig, er mwyn inni wneud y gorau o'r hyn sydd gennym.

Mae yna nifer o fuddiannau i gomisiynu ar y cyd. Yn ogystal â'r gwasanaethau cydlynol ac effeithiol y gellir eu darparu ar draws y partneriaid, a'r sicrwydd mae'n ei gynnig o ran cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol, mae hefyd yn help i osgoi dyblygu ac aneffeithlonrwydd. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddaf yn ymgysylltu'n helaeth â phartneriaid i sicrhau bod model comisiynu ar y cyd yn weithredol ac yn effeithiol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2018.

## b. Troseddau Casineb a Chaethwasiaeth Fodern

### Y Materion a Godwyd:

- Mewn perthynas â throseddau casineb, nododd nifer o'r ymatebwyr fod angen mwy o addysg ynghylch trosedd casineb, yn arbennig ar gyfer dioddefwyr a darpar ddioddefwyr, er mwyn iddyn nhw sylweddoli beth sy'n digwydd iddyn nhw a chymryd y camau priodol i roi gwybod i'r heddlu.
- Unwaith eto, pwysleisiwyd bod trosedd casineb sy'n gysylltiedig ag anabledd yn faes sy'n peri pryder, yn enwedig troseddau yn erbyn rhai sydd â salwch meddwl. Yn aml does neb yn gweld nac yn rhoi gwybod am droseddau yn erbyn pobl sydd â salwch meddwl.
- Does dim digon o ddealltwriaeth a gwybodaeth am gaethwasiaeth fodern yng nghymunedau Gogledd Cymru. Nid yw canran uchel o'r boblogaeth yn sylweddoli ei fod yn broblem ddifrifol sy'n digwydd yng Ngogledd Cymru. Mae nifer o sefydliadau'r trydydd sector yn gwneud gwaith gwirfoddol i gynorthwyo dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern, ond un o'r prif rwystrau mewn perthynas â'r broblem hon yw diffyg dealltwriaeth a gwybodaeth yn gyffredinol. Mae angen inni godi ymwybyddiaeth o'r broblem.
- Mae angen i'r heddlu fod yn ofalus wrth nodi pa drosedd sydd wedi effeithio ar ddioddefwyr. Gall nifer sy'n dioddef caethwasiaeth fodern ymddangos fel dioddefwyr cam-drin domestig. Mae'n bwysig bod y drosedd yn cael ei hadnabod yn gywir.
- Mae angen i Heddlu Gogledd Cymru weithio'n effeithiol gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau diogelwch dioddefwyr pan gânt eu canfod.

### Yr hyn ddywedodd pobl:

- "Troseddau Casineb – mae'r hinsawdd wleidyddol yn debygol o arwain at fwy o droseddau casineb. Mae angen mesurau rhagweledol ac ataliol."
- "Troseddau cudd – troseddau casineb yn erbyn pobl gyda phroblemau iechyd meddwl."
- "Caethwasiaeth Fodern – mae angen mwy o hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern oherwydd yn aml mae'n ymddangos fel trais domestig."
- "Angen codi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern."
- "Caethwasiaeth fodern - adnabod ac asesu'n gywir, paratoi i bwrpas rhyw, lleihau achosion o gamfanteisio."
- "Caethwasiaeth fodern – mae Caergybi'n ardal sy'n peri pryder."

### Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Mae Caethwasiaeth Fodern yn derm cyffredinol sy'n cyfeirio at gamfanteisio ar bobl agored i niwed trwy weithgareddau megis llafur gorfodol a masnachu pobl. Mae'n drosedd sydd wedi'i chuddio o olwg y cyhoedd fel arfer, gyda dioddefwyr sy'n gyndyn i fynd at yr heddlu oherwydd lefel y rheolaeth a'r ofn.

Mae Caethwasiaeth Fodern yn drosedd sy'n effeithio ar ddioddefwyr yng Ngogledd Cymru heddiw.

# Adroddiad ar y Digwyddiad

Dwi'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, lluoedd a chomisiynwyr yr heddlu yng Ngogledd Orllewin Lloegr, a Grŵp Caethwasiaeth Fodern Rhanbarthol Gogledd Cymru i sefydlu dealltwriaeth strategol o effaith a goblygiadau'r broblem hon ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Dwi'n gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i ddylanwadu ar y Llywodraeth i roi grant ariannol i borthladdoedd fel Caergybi dan ddarpariaethau Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

## c. Iechyd Meddwl

### Y Materion a Godwyd:

- Mae angen i'r heddlu ddeall effeithiau salwch meddwl a pha mor fregus yw'r rhai sy'n dioddef ohono. Mae pobl gyda salwch meddwl yn aml yn dioddef troseddau yn eu herbyn (yn enwedig troseddau casineb). Mae angen i'r heddlu gael yr hyfforddiant a'r adnoddau i ddelio'n briodol â rhai sydd â salwch meddwl.
- Mae dementia ac effeithiau unigedd yn bryder arbennig Mae angen sicrhau bod yr heddlu'n sylweddoli pa mor fregus yw'r grwpiau hyn.

### Yr hyn ddywedodd pobl:

- "Effaith unigedd/materion iechyd meddwl ar adnoddau'r heddlu, gall y trydydd sector helpu."
- "Siarad yn aml â heddweision – galw mawr ymhlith pobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl."
- "Anodd cael apwyntiadau iechyd meddwl i ddioddefwyr trais domestig, masnachu pobl/caethwasiaeth fodern."
- "Hefyd, dylai iechyd meddwl fod yn rhan o'r hyfforddiant cyffredinol. Mae plismona'n newid yn aruthrol – angen dealltwriaeth ddyfnach."

### Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Eto, mae gwaith partneriaeth effeithiol yn allweddol i lwyddiant yr Heddlu o ran delio â'r broblem hon, sy'n fater iechyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phartneriaid eraill i ddatblygu ymhellach ein dealltwriaeth o anghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, i wella'n hymateb i bobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl, ac yn arbennig i sicrhau eu bod yn llai agored i niwed.

Erbyn hyn mae Heddlu Gogledd Cymru'n dilyn y canllawiau Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig newydd a luniwyd gan y Coleg Plismona i ddarparu heddweision â gwybodaeth a dealltwriaeth bellach, i'w galluogi i ddelio â phobl yn effeithiol mewn sefyllfaoedd sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.

Dwi'n bendant o'r farn na ddylid rhoi person sy'n dioddef o salwch meddwl neu sydd wedi dioddef chwalfa feddyliol yn y ddalfa. Bydd y Prif Gwnstabl a minnau'n gweithio gyda'r Bwrdd iechyd i sicrhau bod yna ddarpariaeth addas o fewn y gwasanaeth iechyd ar gyfer y rhai sy'n wynebu argyfwng.

## d. Oedran – Pobl Hŷn/Pobl Ifanc

### Y Materion a Godwyd:

- Gall unigedd pobl oedrannus (a'r rhai sydd â salwch meddwl) eu gwneud yn fwy tebygol o ddioddef troseddau yn eu herbyn. Mae angen gwneud mwy o waith o fewn cymunedau i leihau unigedd pobl hŷn, a thrwy hynny eu gwneud yn llai tebygol o ddioddef troseddau yn eu herbyn.
- Mae angen i'r Heddlu ddeall y prif feysydd troseddu sy'n cael effaith ar bobl hŷn er mwyn taclo'r troseddau, a'u hatal rhag digwydd eto yn y dyfodol.
- Beth mae'r heddlu'n ei wneud i daclo cam-drin plant ar-lein?

### Yr hyn ddywedodd pobl:

- "Cydnabod troseddau yn erbyn pobl hŷn"
- "Effaith unigedd"
- "Seiberdroseddu – twyll, gan gynnwys sgamiau dros y ffôn
- "Dylai'r heddlu wneud mwy o ymdrech i daclo cam-drin plant ar-lein - mae'n gyffredin ac mae'n rhy hawdd cael mynediad"
- "Stelcian a seiber-stelcian sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc."

### Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Dwi wrthi'n gweithio gyda'r Heddlu a phartneriaid trydydd sector eraill i godi ymwybyddiaeth, a thrwy hynny, gwneud pobl hŷn yn llai agored i seiberdroseddu a mathau eraill o dwyll.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi rhoi cyllid i Dîm Seiberdroseddu'r Heddlu yn y gorffennol i ddatblygu'r prosiect Cadw'n Ddiogel Ar-lein. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae wedi canolbwyntio ar atal ac amddiffyn grwpiau agored i niwed rhag bygythiad seiberdroseddu. Mae hyn yn cynnwys taclo twyll ar-lein, tynnu sylw at beryglon 'teilwra cymdeithasol', ac annog defnyddwyr y rhyngrwyd "i feddwl ddwywaith cyn gweithredu". Yn ogystal ag ymgyrchoedd niferus Cadw'n Ddiogel Ar-lein i dargedu grwpiau sydd mewn perygl, mae'r Heddlu wedi darparu cyngor ac arweiniad i blant a phobl ifanc ynghylch 'secstio' trwy gyfrwng taflenni a phosteri, a thrwy gymryd rhan yn rhaglen y BBC Week in Week Out ar y pwnc.

Mae llawer o wybodaeth, cymorth ac arweiniad am seiberdroseddu a sut i gadw'n ddiogel ar-lein ar gael ar wefan yr heddlu.

Mae gwaith Heddlu Gogledd Cymru yn y maes hwn o fudd arbennig i bobl ifanc a phobl hŷn. Fodd bynnag, gall holl aelodau cymunedau Gogledd Cymru elwa o'r cyngor hwn.

Hefyd, codwyd rhai materion ehangach mewn perthynas ag unigedd pobl hŷn a sut y gall hyn eu gwneud yn fwy agored i droseddau. Erbyn hyn, mae fy archwiliadau i o'r modd mae'r heddlu'n ymgysylltu ar lefel leol yn cynnwys canolbwyntio ar sut mae heddweision lleol yn ymgysylltu â phobl hŷn, yn enwedig y rhai sydd mewn lleoliadau gofal. Hefyd, mae fy swyddfa i'n cefnogi'r ymgyrch Gweithredu Ynghylch Cam-drin Pobl Hŷn i gynyddu ymwybyddiaeth o Gam-drin Pobl Hŷn ac i gyfeirio a chynorthwyo dioddefwyr.

# Adroddiad ar y Digwyddiad

## e. Plismona Cymunedol, Cyswllt Cymunedol a Chyfathrebu â'r Heddlu

### Y Materion a Godwyd:

- Mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau mewn perthynas â chyswllt yr heddlu â'r cyhoedd. Roedd y rhain yn amrywio o agwedd swyddogion a staff wrth ddelio â'r cyhoedd (yn enwedig tuag at bobl ifanc), i effaith niweidiol symud heddweision o un rôl i'r llall, i'r problemau a wynebir wrth alw'r llinell ddifrys 101. Soniodd pobl hefyd am bwysigrwydd ymgysylltu da gan yr heddlu â phobl agored i niwed.

### Yr hyn ddywedodd pobl:

- "Plismona gweladwy"
- "Mwy o Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu (SCCH), peidio â symud SCCH ymlaen mor gyflym"
- "Rhoi mwy o barch i bobl ifanc"
- "Digwyddiadau Ymgyrch Cinnamon i ymgysylltu â thrigolion hŷn sy'n agored i niwed"
- "Hyfforddi staff yr ystafell reoli i ddelio ag adroddiadau a wneir dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan"

### Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Mae gweld yr heddlu hwnt ac yma'n lleihau'r lefelau troseddu mewn mannau cyhoeddus, yn rhoi sicrwydd i'r rhan fwyaf o'r cyhoedd, ac mi all hefyd atgyfnerthu cysylltiadau â'r heddlu. Fodd bynnag, mae mwy o droseddau'n digwydd ar-lein erbyn hyn nag ar y stryd. Felly, rhaid inni ganolbwyntio'n hadnoddau (sy'n prinhau) ar y meysydd sy'n peri'r bygythiad, risg a niwed mwyaf. Mae'n sialens enfawr i mi i gydbwyso'r adnoddau er mwyn canolbwyntio ar droseddau a dioddefwyr, gan ddarparu gwasanaeth gweladwy, hygyrch ar yr un pryd.

Cyflwynodd Heddlu Gogledd Cymru strwythur newydd ar gyfer eu timau plismona lleol yn 2016 i ganiatáu ymgysylltu mwy effeithiol gyda'r cyhoedd, a sicrhau bod yr heddlu'n cael eu gweld hwnt ac yma. Erbyn hyn mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn archwilio'r strwythurau plismona lleol newydd i sicrhau bod timau plismona lleol yn ymgysylltu ac yn ymgynghori'n effeithiol â'r cyhoedd. Bydd y pwyntiau a godir yma ynghylch ymgysylltu â phobl ifanc a phobl hŷn yn ffurfio rhan o fy archwiliad.

Mae Timau Cymdogaeth Ddiogelach yn eu lle ar draws holl ardaloedd Heddlu Gogledd Cymru, a dylai pobl leol allu cysylltu â'u gwasanaethau plismona trwy gyfrwng pwyntiau cyswllt penodol a chyfarwydd. Mae yna bwyslais cryf ar Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu'n dod i adnabod eu hardal leol trwy batrolio'r strydoedd ar droed, cyfarfodydd wyneb yn wyneb, a digwyddiadau cymunedol. Sefydlir gorsafoedd heddlu 'dros dro' mewn ardaloedd lle ceir problemau neu bryderon penodol, fel Y Rhyl, lle cafwyd problem yfed ar y stryd. Cyflwynwyd cynlluniau ymgysylltu cymunedol a chynlluniau rheoli rhanbarthol er mwyn gosod y modd y mae'r Heddlu'n bwriadu cyfathrebu â chymunedau.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i fonitro perfformiad Canolfan Rheoli'r Heddlu trwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol. Gosodwyd trefn ar gyfer monitro pa mor gyflym mae galwadau'n cael eu hateb, a hefyd faint o weithiau y rhoir gorau i'r alwad. Byddwn yn cyflwyno dull ychwanegol o archwilio galwadau 101 trwy wrando ar sampl penodol o alwadau a recordiwyd.

Mae pobl agored i niwed wedi'u hamlygu fel y mater pwysicaf ym maes plismona trwy gydol fy sesiynau ymgynghori ar gyfer cynllun 2017/18. Dwi wedi cydnabod hyn ac mae'n cael ei adlewyrchu yn y Cynllun Heddlu a Throsedd newydd.

## f. Atal Troseddau a Gweithio mewn Partneriaeth

### Y Materion a Godwyd:

- Mae angen i sefydliadau statudol fod yn fwy arloesol yn eu dull o weithio gyda'i gilydd, a gwneud defnydd mwy cynhyrchiol o sefydliadau trydydd sector. Mae yna nifer o droseddau cymhleth na ellir eu taclo oni bai bod sefydliadau'n gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth.

### Yr hyn ddywedodd pobl:

- "Mae trigolion angen i'r heddlu weithio gyda'r trydydd sector. Mae'n gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiogel'"
- "'Pot' partneriaeth, lle mae sefydliadau gwahanol yn penderfynu ar flaenoriaeth ac yn cyfuno'u cyllid a'u hadnoddau"
- "Mae llond llaw o deuluoedd yn achosi problemau – cyfuno adnoddau asiantaethau i daclo hyn. Canolbwyntio mwy ar y problemau."
- "Mae cyllid yn bwysig iawn – angen bod yn rhagweithiol i wneud gwell defnydd o arian. Mae pawb [o'r trydydd sector] yn mynd ar ôl yr un arian – pawb yn dda am wneud pethau gwahanol."
- "Mae angen cynyddu nifer y gwirfoddolwyr o fewn y system cyfiawnder troseddol – cynnwys y gymuned mewn gwaith plismona."
- "Mae gwaith partneriaeth arloesol yn allweddol er mwyn newid pethau."

### Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd gwaith partneriaeth effeithiol. Ni all gwasanaeth yr heddlu ddarparu'r holl atebion i'r problemau sy'n arwain at droseddu ar ei ben ei hun. Ym meysydd atal troseddu a gofalu am ddioddefwyr yn arbennig, mae'n hanfodol bod gwasanaethau statudol yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd a chyda darparwyr trydydd sector.

Mae sefydliadau'r trydydd sector wedi tynnu sylw at y pryder bod gwasanaethau hanfodol a ddarperir gan y trydydd sector ar gyfer dioddefwyr yn cael eu hariannu fesul blwyddyn, gan wneud hi'n anodd i'r darparwyr hyn i gynnal eu gwasanaeth o un flwyddyn i'r llall. Fel yr esboniais yn fy nghyflwyniad, dwi'n dal i bwyso ar y Llywodraeth mewn perthynas â'r broblem ariannu hon i fy ngalluogi i ddyrannu cyllid dros gyfnod mwy hirdymor, a thrwy hynny roi sicrwydd i'r sefydliadau arbenigol dwi'n eu comisiynu.

Dwi wrthi ar hyn o bryd yn adolygu fy model comisiynu ym maes trais domestig, i sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfuno i alluogi darparwyr gwasanaethau i gynnig y gwasanaeth gorau posib, gan osgoi dyblygu a bylchau diangen.

Dwi wedi gofyn i holl bartneriaid y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel i gynnal "cyllideb weithredol", sef cronfa gyfunol o arian a gyflenwir gan bob partner er mwyn delio â materion diogelwch cymunedol hanfodol wrth iddyn nhw godi. Byddai cyllideb o'r fath yn caniatáu i'r holl bartneriaid ddelio â nifer o broblemau sy'n achosi'r niwed mwyaf i'n cymunedau, a hynny'n gyflym ac yn effeithlon. Rwyf wedi cael cefnogaeth bositif i'r cynnig hwn oddi wrth Carl Sargeant, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Gymunedau a Phlant.

Mae mwy o waith i'w wneud dros y flwyddyn sydd i ddod i wella gwaith partneriaeth, a dwi wedi tanlinellu hyn yn fy nghynllun heddlu a throsedd. Mae fy nghynllun yn canolbwyntio ar y troseddau sy'n achosi'r fwyaf o niwed. Wrth i Heddlu Gogledd Cymru gynyddu'i ffocws a buddsoddi mwy o adnoddau er mwyn taclo troseddau fel cam-drin domestig, camfanteisio'n rhywiol ar blant, a chaethwasiaeth fodern, mi fydd angen i ymateb ein partneriaid fod yr un mor effeithiol ac effeithlon. Byddaf yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl a'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel i sicrhau bod ein partneriaid statudol yn cydweithio'n llawn gyda ni ac yn cynorthwyo i gyflenwi fy nghynllun heddlu a throsedd.

# Gair gan y Comisiynydd

## Blaenoriaethau Plismona 2017/18

### Amcanion

#### Gwaith partneriaeth effeithiol i leihau niwed

- Cam-drin Domestig
- Caethwasiaeth Fodern
- Troseddau Cyfundrefnol
- Cam-drin Rhywiol gan gynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- Cymdogaethau Mwy Diogel

#### Amddiffyn Pobl Agored i Niwed

- Iechyd Meddwl
- Plant, pobl ifanc a phobl hŷn
- Cyffuriau
- Troseddau Casineb

Fel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, dwi'n ddiolchgar i bawb a fynychodd y digwyddiad hwn a/neu a roddodd adborth ar wahân ar gyfer fy Nghynllun Heddlu a Throsedd 2017/18. Hwn oedd fy nghyfarfod ymgynghori cyhoeddus ffurfiol cyntaf gyda'r trydydd sector, a dwi'n teimlo'n falch ac yn ddiolchgar am eich brwdfrydedd, ac am gydnabod pwysigrwydd ymgysylltu o'r fath. Heb eich cyfraniadau, gall fod yna nifer o broblemau na chânt eu harchwilio - mae eich mewnbwn yn rhoi dioddefwyr mewn sefyllfa gryfach, ac mae'n fy helpu i i osod blaenoriaethau effeithiol a pherthnasol a fydd wir yn gwneud gwahaniaeth i'n cymunedau.

Mae'n amlwg i mi, o'r adborth a gefais gennych, yn ogystal â'r adborth a gefais o fy arolwg ar-lein, a chan bartneriaid statudol eraill, bod yn rhaid i mi roi blaenoriaeth i gwrdd ag anghenion y rhai mwyaf agored i niwed yng Ngogledd Cymru. Mae Cam-drin Domestig, Caethwasiaeth Fodern, Troseddau Cyfundrefnol a Cham-drin a Chamfanteisio ar Blant yn Rhywiol yn droseddau a gyflawnir yn erbyn y rhai mwyaf agored i niwed. Rwyf wedi cysoni fy mlaenoriaethau i sicrhau bod y dioddefwyr hynod o agored i niwed hyn yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi. Bydd fy nghyllideb yn cael ei defnyddio i geisio atal, cynyddu ymwybyddiaeth, a thaclo'r troseddau hyn yn uniongyrchol.

Diolch o waelod calon ichi am eich cyfranogiad ac am gefnogi fy ngwaith i sicrhau Gogledd Cymru mwy diogel.

# Atodiad 1 –
# Sefydliadau oedd yn Bresennol

1. Cymorth i Ddioddefwyr
2. Cyngor Tref Rhuthun
3. Cymorth i Fenywod Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
4. Rhwydwaith Trawsrywiol UNIQUE
5. Girl Guiding Clwyd
6. Cymdeithas OWL (Online Watch Link) Sir y Fflint a Wrecsam
7. Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
8. CAIS
9. Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin Rhyl - VIVA
10. Family Action
11. Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig (DASU) Sir y Fflint
12. Canolfan Cymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru
13. Canolfan Cymorth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru
14. Pentreperyglon
15. Canolfan Menywod Gogledd Cymru
16. Cymdeithas Tai Clwyd Alyn (staff a thrigolion)
17. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
18. Localgiving
19. Cartrefi Conwy
20. Cyngor Cymuned Rhosllannerchrugog
21. Unllais
22. RainbowBiz Limited
23. Fforwm Anabledd Sir y Fflint
24. Cymdeithas Integreiddio Amddiwylliannol Gogledd Cymru (NWAMI)
25. Cymdeithas Ffilipino Gogledd Cymru (NWFA)
26. Cymunedau yn Gyntaf (Gogledd Sir Ddinbych)
27. Hafan Cymru
28. Prosiect Llais Cymunedol Conwy
29. Cartrefi Cymunedol Gwynedd
30. Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a’r Gymuned (PACT)
31. Mantell Gwynedd
32. Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy
33. Y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol
34. Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW)
35. BAWSO
36. Stepping Stones
37. Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
38. Mind Dyffryn Clwyd
39. Cymorth i Fenywod Glyndwr
40. Cymdeithas Alzheimer